# JONES, JOHN ('Myllin '; 1800 - 1826), bardd

**Enw:** John Jones
**Ffugenw:** Myllin
**Dyddiad geni:** 1800
**Dyddiad marw:** 1826
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** Elwyn Evans

Ganwyd yn y Glyniau, ger Llanfyllin. Dysgodd fod yn grydd a bu'n gweithio am ysbaid yn Lerpwl, Cafodd gefnogaeth y Parch. David Richards, Llansilin, a bu'n gyfeillgar â ' Gwallter Mechain,' ' Ieuan Glan Geirionydd,' ac eraill. Yn eisteddfod y Trallwng yn 1824 enillodd wobr am ei englynion ' Beddargraph Dic Sion Dafydd.' Ceir enghreifftiau o'i waith yng nghylchgronau'r cyfnod. Dyma rai o'i gerddi mwyaf adnabyddus: ' Myfyrdodau wrth wrando Cnul ' ac ' Awdl o ddiolchgarwch i Dduw am ffrwythlondeb cynhyrchiol a thymmor llwyddiannus y Cynhauaf ' (*Yr Eurgrawn Wesleyaidd*, 1825); ' Englynion Difyfyr ar Lanfyllin ' (*Y Gwyliedydd*, 1823); ' Morwynion glân Trefaldwyn ' (*Golud yr Oes*, ii, 155). Ceir ganddo hefyd gyfieithiad o ' Lashed to the Helm ' gan Dibdin ac o ' Auld Lang Syne.' Bu farw 9 Gorffennaf 1826 a'i gladdu yn Llanfyllin.

## Awdur

**Elwyn Evans**

## Ffynonellau


*Y Cymmrodor*, x, 63

*Y Geninen*, 1888, 136


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733516

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu